## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 23 Hydref, 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 30 Hydref, 202. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 31 Hydref, 2025.

| | |
|---|---|
| **Presennol**: | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd a Chadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams. |
| **Hefyd yn bresennol**: | Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) (ar gyfer eitemau 6 ac 8), Glyn Haynes, Kenneth P Hughes ac Aled Morris Jones |
| **Ymddiheuriadau**: | Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed W Jones, Robin Williams |

(10.00 o'r gloch yb – 10.45 o'r gloch yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Ddim yn berthnasol |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod yn gywir -**<br><br>• **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2025;**<br>• **Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2025.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ddim yn berthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Ddim yn berthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Ddim yn berthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Ddim yn berthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ddim yn berthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Pennaeth Democratiaeth |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2025 i Fehefin 2026.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cwynion a Chwythu'r Chwiban - 04/2024 - 03/2025**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br><br>• **Gweithredu'r isod, cyn gynted â phosib: -**<br><br>  • **cyflwyno dashfwrdd Power BI ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, mewn perthynas â chwynion am eu gwasanaeth;**<br>  • **darparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion cwynion, a'u dirprwyon, ar ofal cwsmer a chydraddoldeb / amrywiaeth;**<br>  • **diweddaru'r nodyn canllaw ar drin cwynion yn effeithiol.**<br>• **Ar ôl ystyried y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2024/2025, gofyniad bod data perfformiad presennol ar gwynion am wasanaethau yn dod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Penaethiaid Gwasanaeth / Cyfarwyddwyr a'u harweinwyr Pwyllgor Gwaith (Aelodau Portffolio).**<br>• **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau o'r angen i: -** |

| | |
|---|---|
| | • weithredu unrhyw argymhellion gan OGCC ac adrodd i OGCC eu bod wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd;<br>• cofnodi'n rheolaidd unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion, adnabod unrhyw batrymau a gweithredu mesurau lliniaru addas.<br>• **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ymateb i Lythyr Blynyddol OGCC 2024/25 yn ôl yr angen ym mharagraff olaf ond un y Llythyr o dan sylw.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Darparu gwybodaeth am gwynion â gwasanaethau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Canlyniadau'r ymgynghoriad ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed**<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **Cymeradwyo'r cynnig (yn dilyn yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig) i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11–18 oed".**<br>• **Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi hysbysiad statudol mewn perthynas â'r cynnig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol** |

| | |
|---|---|
| | **newydd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Achos Amlinellol Strategol – Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol uwchradd newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed**<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br>• **cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;**<br>• **cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru erbyn 8 Ionawr 2026 ar gyfer cyfarfod o'r Grwp Craffu ar Achosion Busnes a fydd yn cyfarfod bythefnos yn ddiweddarach;**<br>• **cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf yn dilyn gwerthu safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi i ad-dalu rhan o fuddsoddiad y Cyngor tuag at adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;**<br>• **dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog A151 a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Achos Amlinellol Strategol os oes angen - oni bai bod y newidiadau'n achosi newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd bartïon).** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strateol ar yfer adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |